

Cynllun Thema Adfer: Gweithio'n Hyblyg ac o Bell

Teitl y Thema Adfer: Gweithio'n hyblyg ac o bell

Swyddog Arweiniol: Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio

Aelod Arweiniol: Richard Mainon – Aelod Arweiniol Materion Corfforaethol

Crynodeb o'r Thema Adfer:

- Mae nifer o swyddogaethau'r cyngor wedi'u darparu'n llwyddiannus drwy weithio'n rhithiol yn ystod y pandemig.

Mae'r defnydd o'r system CAG, lle mae defnyddwyr yn defnyddio systemau'r Cyngor ar-lein, wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn o oddeutu 200 y diwrnod i bron i 1600. Mae bron bob cyfarfod – gweithredol a democrataidd – yn cael eu cynnal yn 'rhithiol' ar hyn o bryd.

- Mae gweithio fel hyn wedi arwain at fuddion gwirioneddol: mae milltiroedd busnes a milltiroedd staff o'u cartref i'w gwaith wedi gostwng yn sylweddol, yn ogystal â theithiau Aelodau i gyfarfodydd, mae hyn wedi lleihau ôl troed carbon y Cyngor.

Mae tagfeydd traffig lleol a'r llygredd dilynol wedi gostwng, ac mae gweithio o gartref wedi gwella'r cydbwysedd gwaith a bywyd i nifer o bobl, staff ac Aelodau fel ei gilydd.

- Oherwydd hyn, dylid parhau â'r dull hwn pan fydd y gofynion cadw pellter cymdeithasol wedi dod i ben.

Dylai pob un, neu'r mwyafrif, o gyfarfodydd rheolaidd gael eu cynnal yn 'rhithiol' a dylai gweithio o gartref fod yn 'norm', a bydd trefniadau AD, trefniadau contract a threfniadau democrataidd yn cydnabod hyn. Bydd hyn yn cynnwys y Cabinet, Craffu ac ati, gan eithrio cyfarfodydd Cyngor llawn o bosibl, lle gallai presenoldeb rhithiol fod yn ddewisol.

- Dylai ymweliadau â'r swyddfa neu ystafelloedd Pwyllgor fod yn eithriad i'r mwyafrif o staff ac Aelodau.

Pan fo cyfarfodydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb, bydd hyn at ddibenion rhwydweithio, monitro neu'r math o waith na ellir ei ddarparu'n rhithiol yn hawdd iawn (sesiynau meithrin tîm neu sesiynau creadigol, er enghraifft)

- Nid oes rhaid i gyfarfodydd o'r fath gael eu cynnal drwy sianeli ffurfiol chwaith; os mai pwrpas y cyfarfod yw cynnal cydlynid mewn tîm neu grŵp, neu fynd i'r afael ag ynysiad, nid oes rhaid bod 'yn y swyddfa' o gwbl, mae modd eu cynnal mewn lleoliadau llai ffurfiol neu drwy ddulliau llai ffurfiol, gydag amddiffyniadau priodol.
- Nid i waith 'swyddfa' yn unig y mae hyn yn berthnasol: mae'n bosibl y bydd ffyrdd newydd o weithredu'n 'rhithiol' yn bosibl ar gyfer rhai swyddogaethau gweithredol hefyd.

Er enghraifft, gwneud mwy o ddefnydd o dystiolaeth fideo yn hytrach nag ymweliadau â safleoedd ac ati.

- Byddai buddion democrataidd ynghlwm â newid o'r fath: mae gweithio'n rhithiol, yn ôl diffiniad, yn lleihau'r angen i deithio a hefyd yr ymrwymiad amser sydd ynghlwm â mynychu cyfarfodydd amrywiol y Cyngor.

Byddai hyn yn ei gwneud yn llawer haws i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu neu waith i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, ac felly'n denu ystod ehangach o bobl i sefyll, un o uchelgeisiau hirdymor y Cyngor. Gallai hyn fod yn darged realistig ar gyfer yr etholiad nesaf yn 2022.

- Mantais arall o'r gwaith hwn, yn arbennig os bydd Cynghorau eraill yn penderfynu gwneud yr un fath, fyddai'r dosbarthiad ehangach o effaith economaidd presenoldeb staff, gyda'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn treulio llawer mwy o amser yno, ac yn helpu i gynnal ac adfywio'r cymunedau hynny.
- Byddai mabwysiadu'r dull hwn yn cyflwyno budd pellach yn y pen draw, gan y byddai'n lleihau'r gofyniad i gynnal gofod swyddfa penodedig ar gyfer staff.

Yn yr hirdymor, mae'n bosibl na fydd arnom ni angen ein prif adeiladau swyddfa mwyach; yn hytrach, pan fydd staff angen defnyddio swyddfa, byddai modd iddynt deithio i'w cyfleuster agosaf i ddefnyddio desg a rannir. Gall yr adeilad hwn fod yn un o adeiladau CSDd (swyddfa neu Lyfrgell leol er enghraifft), neu adeiladau a weithredir gan ein partneriaid dan drefniadau dwyochrog, er mwyn sicrhau cyn lleied o deithio â phosibl.

- Ond mae faint o ofod swyddfa fydd arnom ni ei angen yn gwestiwn ar gyfer adeg arall, gan nad ydym yn gwybod yr ateb i hyn ar hyn o bryd.

Y peth pwysicaf ar hyn o bryd yw ein bod yn defnyddio'r galluoedd newydd a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod clo i wneud newid sylweddol i'r ffordd yr ydym yn gweithio yn y Cyngor, gan ddatblygu ein democratiaeth, lleihau ein hól troed carbon a rhoi hwb i'n cymunedau.

Amcanion Allweddol

- Gwneud y cyngor yn fwy effeithlon drwy newid arferion gwaith i leihau costau, yn arbennig mewn perthynas â theithio busnes ac o'r cartref i'r gwaith.
- Lleihau ôl troed carbon y Cyngor
- Cynyddu'r cyfranogiad democrataidd yng ngwaith y Cyngor
- Gwella'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ar gyfer staff CSDd sy'n gweithio mewn swyddfa
- Cynyddu cynaliadwyedd cymunedau gwledig

- Sicrhau fod adeiladau'r Cyngor yn cael eu llunio i adlewyrchu lefel yr angen yn y ffordd orau bosibl.

Cerrig Milltir Allweddol.

- Penderfynu bod y Cyngor yn parhau i weithio'n rhithiol lle bynnag y bo hynny'n bosibl, fel 'normal newydd'.
- Ailddatgan polisiau AD y Cyngor fel bod gweithio o gartref, neu weithio o 'ofod a rannir' yn 'norm' newydd, ac nad yw contractau'n cael eu diffinio gan un lleoliad gwaith penodol mwyach.
- Adolygu trefniadau democrataidd er mwyn iddynt gael eu gweithredu'n effeithiol ac yn gyfreithlon drwy ddulliau rhithiol, gan gynnwys presenoldeb y cyhoedd lle bo angen, sy'n annog rhagor o gyfranogiad.
- Sicrhau fod gan y Cyngor yr offer TGCh i weithio'n rhithiol a bod gan Swyddogion ac Aelodau'r cyfarpar cywir i weithio o gartref.
- Bod swyddfeydd yn gallu hwyluso'r agweddau 'meddalach' o waith gweithredol, pan fo cysylltiad wyneb yn wyneb yn cael ei ffafrio.
- Yn yr hirdymor, adolygu gofyniad y Cyngor am ofod swyddfa ffurfiol, gyda'r bwriad o gydbwysu'r ôl troed cyffredinol i gyd-fynd â'r gostyngiad mewn galw.

Risgiau a Chyfleoedd:

1. Cyfle i fanteisio ar y cam ymlaen o ran y gallu i weithio'n effeithiol yn rhithiol, a gyflawnwyd gan swyddogion ac Aelodau yn ystod y cyfnod clo.
2. Cyfle i ddatblygu sefydliad mwy effeithlon gyda llai o ôl troed carbon.
3. Cyfle i ymgysylltu ag adran ehangach o'r gymuned yn y broses ddemocrataidd.
4. Mae perygl y bydd yr ysgogiad i adfer 'busnes fel arfer' yn achub y blaen ar newid mwy hanfodol.

5. Mae perygl y bydd anwybodaeth o TGCh a gweithio rhithiol yn cyfyngu hyder pobl i ymestyn ei ddefnydd.

Beth yw Llwyddiant?

- Cyngor mwy effeithlon
- Cyngor sy'n gweithio'n fwy 'gwyrdd' ac yn lleihau eu hól troed carbon
- Cyfranogiad democrataidd gwell
- Cymunedau lleol mwy cynaliadwy
- Llai o gerbydau ar y ffyrdd, sydd o fantais i draffig masnachol ac yn darparu cyfleoedd mewn perthynas â logisteg addysg.